# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Mehefin 2024

Amser: 09.34 - 13.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13929) yn:

http://senedd.tv/cy/13929

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Cefin Campbell AS (yn lle Luke Fletcher AS)<br>Samuel Kurtz AS |
| Tystion: | Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>Dr Richard Irvine, Llywodraeth Cymru<br>David Jones, Blue Gem Wind<br>Jane Lancastle, Prospect<br>Nisreen Mansour, Wales TUC<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Wendy Weber, Coleg Sir Benfro |
| Staff y Pwyllgor: | Rob Donovan, Clerc<br>Lara Date, Ail Glerc |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Evan Jones, Dirprwy Glerc<br>Ceri Thomas, Swyddog Cymorth y Pwyllgor<br>Lucy Morgan, Ymchwilydd<br>Katy Orford, Ymchwilydd<br>Gareth Thomas, Ymchwilydd |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AS, Jenny Rathbone AS a Luke Fletcher AS. Roedd Cefin Campell AS yn bresennol fel dirprwy.

1.3 Datganodd Samuel Kurtz AS ei fod yn aelod er anrhydedd o Gymdeithas Milfeddygon Prydain.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**2.1 Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

**2.2 Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforio Da Byw) 2024**

**2.3 Rheoliadau Deddf Ifori (Ystyr "Ifori" a Diwygiadau Amrywiol) 2024**

**2.4 Tata Steel UK**

**2.5 Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru: Ymateb i gyflwyniad Mr Andrew Ling**

**2.6 Dyfodol Dur yng Nghymru**

**2.7 Ymchwiliad i'r Economi Werdd: Cwestiynau dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2024**

**2.8 Hybu Cig Cymru**

## 3 Ymchwiliad i'r Economi Werdd - Panel 7 - Astudiaeth Achos 2 - Sir Benfro

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Goleg Sir Benfro a Blue Gem Wind ar yr economi werdd.

3.2 Cytunodd Blue Gem Wind i rannu canfyddiadau gweithdy gwersi a ddysgwyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar y broses gydsynio ar gyfer prosiect Erebus.

## 4 Ymchwiliad i'r Economi Werdd - Panel 8 - Undebau Llafur

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Prospect a'r TUC ar yr economi werdd.

4.2 Cytunodd Prospect i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch darparu pŵer glân a'r hyn sy'n cael ei wneud i ateb yr heriau o ran sgiliau, ac i ddarparu linc i wybodaeth am gymhwyster newydd Cynaliadwyedd ar Waith CBAC.

## 5 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda'r cwestiynau nas cyrhaeddwyd ar Bysgodfeydd.

## 6 Ymchwiliad: Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 8 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Banc Datblygu Cymru: Trafod y materion allweddol

9.1 Trafododd y Pwyllgor y papur materion allweddol.

## 10 Gohebiaeth ar Gylchoedd Gwaith Pwyllgorau

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.